*This document is available in English* **Eitem 15 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r ATA, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Cyflwynwyd drafft i Archwilio Cymru cyn 31 Mai, fel sy'n ofynnol dan y ddeddfwriaeth uchod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol i ddangos:

- Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

3 Nodir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1 ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' CIPFA/Solace (2016). Mae'r flaenraglen waith ar gyfer 2024/25 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael adolygiad cam cyntaf ac ail gam gan Archwilio Cymru er mwyn cadarnhau ei fod yn gyson â'r datganiadau ariannol a'i fod wedi'i baratoi yn unol â'r Fframwaith.

5 Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi pan fydd wedi'i gymeradwyo gan y Trysorydd, Cadeirydd yr Awdurdod Tân a'r Prif Swyddog Tân, a hynny erbyn 31 Hydref 2024.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

6 Oherwydd cyfyngiadau amser, nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi bod drwy'r Pwyllgor Archwilio na'r Panel Gweithredol.

**ARGYMHELLIAD**

7 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24;
ii) nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2024/25; a
(iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 31 Hydref 2024.

**CEFNDIR**

8 Mae'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

9 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu ac arddangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol wedi'i sefydlu ar draws y sefydliad.

**GWYBODAETH**

10 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethu newydd, sef 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' (y Fframwaith). Strwythurwyd y Fframwaith o amgylch saith egwyddor llywodraethu sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

11 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:

(i) bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
(ii) bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
(iii) bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

12 Amlinellir Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 yn Atodiad 1. Mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2024/25.

13 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

14 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaenraglen waith 24/25 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim goblygiadau |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Mae paratoi a chyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae’r Datganiad yn cyfeirio’n benodol at gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |